

# RHONDDA CYNON TAF

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y **Cynghorydd Joy Rosser** isod ynglŷn â'i gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben Mai 2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

*Mae cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y maen nhw'n dymuno ym mhob adran, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i'r fformat **2 dudalen (uchafswm)**.*

**Cynghorydd:** Joy Rosser  
**Rhanbarth Etholiadol:** Trealaw

### **Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau**

Yr holl gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rôl Cynghorydd Bwrdeistref Sirol gan gydymffurfio â Chod ac Ymddygiad Cynghorwyr.

#### **Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes**

- Addysg Uwchradd, Cynradd, Meithrin, Cyfrwng Cymraeg, Dwyieithog, ac Anghenion Arbennig
- Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol
- Agenda Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif
- Cyswllt ag Addysg Bellach ac Uwch
- Ysgolion a'r Gymuned
- Mynediad i Ddysgu, Ymgysylltu, Ennyn Diddordeb, Cyfranogiad, Cynhwysiant, a Chynhwysiad
- Cymorth i Lywodraethwyr
- Addysg heblaw yn yr ysgol
- Addysg i Oedolion
- Llyfrgelloedd

#### **Aelod o'r Pwyllgorau/Cyrff canlynol**

- Y Cyngor
- Cabinet
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De
- Bwrdd Ymgynghorol Consortiwm Canolbarth y De (Cadeirydd)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cydbwyllgor Addysg Cymru
- Is-gadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg
- Fforwm Cyllideb Ysgolion (Cadeirydd)
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Swyddogaeth yr Adain Weithredol)
- Coleg y Cymoedd
- Bwrdd Rhianta Corfforaethol
- Llywodraethwyr Awdurdod Addysg Lleol (Cadeirydd)

## **Adran 2: Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

- Cefnogi a chynrychioli trigolion ar ystod eang o faterion
- Cynrychioli unigolion a sefydliadau lleol, ymgymryd â gwaith achos ar eu rhan
- Cysylltu â Swyddogion y Cyngor gan weithredu fel eiriolwr ar ran y trigolion
- Mynychu cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT)
- Cysylltu â'r Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ynghylch materion sy'n effeithio ar y gymuned
- Hyrwyddo cydlyniad cymunedol
- Cyfrifol am roi mesurau arafu traffig ar y brif ffordd drwy'r pentref ar waith
- Gweithio gyda'r adran Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal

## **Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

- Sylfaenydd Ymddiriedolaeth Pentref Trealaw – sefydliad gwirfoddol nid-er-elw sy'n hyrwyddo cyfleusterau a gweithgareddau yn yr ardal. Mae prosiectau wedi cynnwys gweithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion, achlysuron codi ymwybyddiaeth am iechyd/yr amgylchedd, mentrau banc amser/gwirfoddolwyr, prosiectau celf cymunedol

Prosiectau cyfredol:

- Sesiwn grefftau ddwywaith yr wythnos yn Eglwys All Saints Trealaw
- Prosiect Detholiad yn cynnwys 10 grŵp o Ganolbarth y Rhondda, pob un yn cynhyrchu eu llyfr eu hunain gyda chefnogaeth ysgrifennwr a darlunydd
- Ar fin dechrau y mae Prosiect rhyng-genhedlaeth o'r enw 'Atgofion' a fydd yn cynnwys pobl hŷn a phlant a phobl ifainc

## **Adran 4: Dysgu a Datblygu**

- Mynychu hyfforddiant perthnasol i Gynghorwyr, gan gynnwys seminarau a chynadleddau'r Cyngor
- Mynychu sesiynau briffio'r Cyngor ar ystod o swyddogaethau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflenwi
- Hyfforddiant ar newid deddfwriaethol neu o ran cyflenwi gwasanaethau

## **Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill**

- Ar Fwrdd y Llywodraethwyr ar gyfer Ysgolion Cynradd Trealaw ac Alaw
- Aelod o Gyngor Eglwys y Plwyf
- Wedi helpu gyda chais am grant i atgyweirio'r to yn Neuadd yr Eglwys
- Llywodraethwr Ysgol Gynradd Trealaw ac Alaw
- Ar bwyllgor Ymddiriedolaeth Neuadd y Beirniaid
- Aelod o Ymddiriedolaeth Pentref Trealaw

Llofnod y Cynghorydd:

*Jay Rosser*

Dyddiad: 31.5.2018

